**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 2022 - 2027**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 a gynhaliwyd Dydd Llun, 17 Gorffennaf 2023 am 5.00 pm ym .

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd J Edwards (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Ashford | Y Cynghorydd S.Evans |
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd C Middle |
| Y Cynghorydd S Morgans | Y Cynghorydd G L Warren |
| Y Cynghorydd K Webb | Y Cynghorydd B Stephens |
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd R Davis |

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

**Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol**

Mr Martin Veale

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Ms S Daniel, Uwch Swyddog Gwasanaethau Llywodraethol

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

**Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd J Bonetto    Y Cynghorydd K Morgan

## 8 Datganiadau o Fuddiant

Roedd y Cynghorydd Sera Evans wedi datgan buddiant personol yn dilyn y cais am eitem ar fyfyrwyr Rhyngwladol sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus.

Roedd y Cynghorydd Middle wedi datgan buddiant personol mewn perthynas ag eitem 5 gan ei fod e'n Aelod o Fwrdd Trivallis, ac mae sôn am Trivallis yn yr adroddiad.

## 9 Cofnodion

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 Mai a 24 Mai 2023 yn gofnod cywir o’r cyfarfodydd.

## 10 Dolenni Ymgynghori

Roedd y Blaen Swyddog Craffu wedi atgoffa'r Aelodau am yr ymgynghoriadau y

mae modd i Aelodau ymateb iddyn nhw. to should they wish to respond to them.

## 11 Rhaglen Waith Ddrafft y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Cyflwynodd y Blaen Swyddog Craffu adroddiad i Aelodau sy'n ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor mewn perthynas â Rhaglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ogystal â Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned a'r Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant. Roedd y Swyddog Craffu wedi atgoffa'r Aelodau bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau wedi'i adolygu yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor yn 2022. Roedd hyn wedi arwain at gryfhau cyfrifoldebau'r Pwyllgor o ran cydlynu.

Soniodd Aelod am bwysigrwydd yr eitem arfaethedig ar Domenni Glo gan gytuno y dylai'r eitem yma barhau i fod yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu er mwyn ei thrafod yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cadeirydd fod eitem ar Gyfranogiad y Cyhoedd mewn perthynas â Gwaith Craffu yn cael ei chynnwys, yn dilyn mabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor nes ymlaen yn y flwyddyn.

Gofynnodd Aelod am eglurder mewn perthynas â’r eitem ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, gan holi sut y bydd hyn yn cael ei graffu gan fod y Pwyllgor Craffu - Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant eisoes wedi trafod yr eitem yma.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi cael ei nodi yn ystod cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fel dogfen sy'n cefnogi nifer o swyddogaethau corfforaethol y Cyngor a fydd yn cael eu hystyried yn rhan o waith craffu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, dyma pam mae'r eitem wedi'i chynnwys yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Ychwanegodd y bydd yr eitem yma hefyd yn cael ei thrafod gan y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant.

Gofynnodd y Cadeirydd fod eitem ar fyfyrwyr rhyngwladol sydd heb fynediad i gyllid cyhoeddus yn cael ei chynnwys yn rhan o'r Rhaglen Waith gan ddefnyddio'r eitem yma i fanteisio ar y cyfle i wahodd sefydliadau allanol sy'n darparu cymorth i'r myfyrwyr yma.

Roedd y Cynghorydd Sera Evans o blaid cynnwys yr eitem yma, ond nododd y bydd hi'n datgan buddiant sy'n rhagfarnu yn ystod y drafodaeth yma ac yn gadael y cyfarfod gan ei bod hi'n gweithio i Brifysgol De Cymru ac yn benodol yn rhan o'r adran recriwtio myfyrwyr.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Gofyn bod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn rhoi gwybod i'r Aelod perthnasol o'r Cabinet a'r Swyddog perthnasol am y materion sydd wedi'u nodi fel materion i’w craffu cyn i'r Cabinet eu trafod.
2. Bod y Pwyllgor wedi cytuno i adolygu'r rhaglen waith yn rheolaidd i sicrhau bod yr eitemau sydd wedi'u nodi yn parhau i fod yn berthnasol a bod unrhyw atgyfeiriadau pellach yn cael eu cynnwys;
3. Bod y Pwyllgor, ble y bo'n addas, wedi trafod unrhyw eitemau y byddai

modd eu cyflwyno i'r Pwyllgor fel Adroddiadau Gwybodaeth

4. Bod y Pwyllgor wedi cytuno pa faterion y mae angen eu cyfeirio at y Pwyllgorau Craffu unigol er mwyn eu cynnwys yn eu rhaglenni gwaith eu hunain.
5. Bod y Pwyllgor wedi trafod a chytuno ar Raglen Waith y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant, a Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned, yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi yn Atodiad B a C, gan ddileu'r adroddiad ar Domenni Glo o Raglen Waith y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant gan y bydd y mater yma'n cael ei drafod gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, ac ychwanegu eitem ar fyfyrwyr rhyngwladol i Raglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar ôl Haf 2023.
6. Nodwyd y bydd Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu er mwyn ei thrafod, yn dilyn trafodaeth am y rhaglen waith ddrafft yn ystod ei gyfarfod ar 19 Gorffennaf 2023.

**12 Adroddiad Cyflawniad ac Adnoddau'r Cyngor (Chwarter 4)**

Cyflwynodd Blaen Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad ar Gyflawniad y Cyngor hyd at 31 Mawrth 2023 i Aelodau. Pwysleisiodd y Swyddog bwysigrwydd yr wybodaeth yma mewn perthynas â'r broses graffu, yn enwedig o ran cyflawni'r cylch gorchwyl, ond hefyd o ran llywio materion i'w trafod ar sail yr wybodaeth am gyflawniad sydd wedi'i darparu. Nododd y Swyddog fod y Pwyllgor yma'n gyfrifol am gyfeirio unrhyw eithriadau sydd wedi'u nodi at y pwyllgor craffu perthnasol, yn unol â'r cylch gorchwyl diwygiedig.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella yr adroddiad i Aelodau. Roedd yr adroddiad yma'n cynnwys manylion am ddatganiadau diwedd blwyddyn mewn perthynas â'r gyllideb gyfalaf a'r gyllideb refeniw, dangosyddion darbodus Rheoli'r Trysorlys, gwybodaeth Iechyd Sefydliadol, gan gynnwys trosiant staff, salwch a risgiau strategol y Cyngor; a chynlluniau gweithredu ar gyfer blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gan gynnwys dangosyddion cyflawniad a buddsoddi). Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi gwaith y Cyngor i wella'i ymateb i ddigwyddiadau tywydd eithafol ac wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Aelodau holi cwestiynau.

Roedd Aelod wedi sôn am y pwysau cynyddol ar y sector gofal cymdeithasol, a'r galw cynyddol ar feysydd gwasanaeth ers dechrau pandemig Covid 19. Gofynnodd yr Aelod am wybodaeth bellach am yr hyn sy'n cael ei drafod o ran cynllunio ariannol tymor hwy ar gyfer y meysydd gwasanaeth yma.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella wybod bod gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y Cyngor, yn rhan o'i drefniadau cynllunio ariannol tymor canolig. Rhoddodd wybod bod y Cabinet wedi cytuno ar Strategaeth Cartrefi Gofal Preswyl i Bobl Hŷn a Strategaeth Trawsnewid Gwasanaeth Preswyl y Gwasanaethau i Blant, sy'n pennu'r ffordd ymlaen ar gyfer datblygu a thrawsnewid gwasanaethau yn y ddau faes, a hynny i sicrhau bod gan drigolion fynediad i wasanaethau modern sy'n addas i'r diben. Ychwanegodd fod gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi bod yn wynebu galw

uchel ynghyd â chostau uwch o ganlyniad i lefelau chwyddiant uchel, ac mae hyn i'w gweld yng Nghyllideb Refeniw y Cyngor ar gyfer 2023/24. Nododd fod y Cyngor wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn untro mewn modd call i greu capasiti ychwanegol a lleihau'r rhestr aros ar gyfer gwasanaethau.

Holodd Aelod a fydd prosiectau'r dyfodol yn cael eu heffeithio gan gostau uwch ar gyfer gweithwyr a deunyddiau.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella wybod bod pob prosiect yn destun proses gaffael ac adolygu parhaus o ran costau, cyllid ac amseru a hynny i sicrhau bod modd cyflawni prosiectau gan ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael. Os yw'r prosiect yn cael ei gefnogi gan sefydliadau ariannu allanol, ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r sefydliadau hynny os yw costau wedi cynyddu, neu os rhagwelir y byddan nhw'n cynyddu, o ganlyniad i ffactorau nad oes modd eu rheoli megis chwyddiant neu bwysau ehangach ar y farchnad.

Holodd Aelod a yw'r dyraniad tai yn RhCT yn cael ei effeithio gan nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cofrestru gyda'r brifysgol, a gan ystyried y niferoedd uchel a fydd yn cofrestru o fis Medi, sut bydd hyn yn effeithio ar y Cyngor a sut byddwn ni'n mynd i'r afael â hyn?

Datganodd y Cynghorydd S Evans fuddiant sy'n rhagfarnu a hithau wedi'i chyflogi gan Brifysgol De Cymru ac yn gweithio yn rhan o'r adran recriwtio myfyrwyr. Gadawodd y Cynghorydd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella wybod bod hyn yn sefyllfa heriol, ac mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid i ddarparu cymorth yn y maes yma.

Cododd Aelod bryder mewn perthynas â throsiant staff a lefelau salwch uchel yng Nghyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant a gofynnodd am wybodaeth bellach ynghylch pam y mae staff yn gadael y Cyngor a pha gamau sy'n cael eu cymryd i atal hyn rhag digwydd.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella wybod bod y Cyngor yn rhagweithiol wrth recriwtio staff, mae hyn yn cynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gyda'r nod o ddenu'r bobl gywir i'r rôl a chefnogi unigolion i ddatblygu'u gyrfaoedd, gan gynnwys prentisiaid a swyddogion graddedig. Nododd fod trefniadau ar gyfer cyfweliadau ymadael ar waith, yn enwedig yn y sector gofal cymdeithasol ac ysgolion, a chaiff adborth ei ddarparu i reolwyr gwasanaeth er mwyn llywio gwaith datblygu'r gweithlu a threfniadau cynllunio. O ran lefelau absenoldeb oherwydd salwch, ychwanegodd fod cymorth yn cael ei ddarparu i staff, yn ogystal â gwaith ymgysylltu, i sicrhau bod atgyfeiriadau i Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol y Cyngor yn cael eu cyflawni er mwyn cefnogi staff sy'n dychwelyd i'r gwaith.

Wrth ymateb i gwestiwn gan Aelodau mewn perthynas â chyflogau, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod cyfraddau'r Awdurdod Lleol ac asiantaethau yn gyson â'i gilydd, yn unol â'r gofynion sydd wedi'u pennu. Ychwanegodd fod y Cyngor yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r pecyn buddion cyffredinol sydd ar gael i weithwyr y Cyngor yn rhan o drefniadau recriwtio a chadw.

Mynegodd Aelod bryderon am ffigurau mynychu'r ysgol, sy'n is na'r lefelau cyn y

pandemig o hyd. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod y Cyngor yn blaenoriaethu gwella lefelau mynychu'r ysgol, mae Swyddogion y Cyngor yn gweithio'n agos â'r ysgolion i ddarparu'r cymorth a'r ymyraethau sydd eu hangen.

Yn dilyn ymholiad am y gorwariant sydd i'w weld yn y Gwasanaethau i Oedolion, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod hyn yn ymwneud â'r costau cynyddol yn ein Gwasanaethau wedi'u Comisiynu, yn benodol ar gyfer lleoliadau gofal preswyl/nyrsio allanol, a Chynlluniau Byw â Chymorth, ynghyd â thangyflawniad o ran cyfraniadau cleientiaid mewn cartrefi gofal i bobl hŷn o ganlyniad i ddefnydd isel yn y maes gwasanaeth yma.

Yn dilyn trafodaeth am yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr Adroddiad Cyflawniad (Chwarter 4).

**13 Ymgynghoriad: ESTYNIAD ARFAETHEDIG GORCHMYNION DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CBSRHCT MEWN PERTHYNAS Â RHEOLIADAU AR GŴN**

Cyflwynodd Blaen Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad i Aelodau. Mae'r adroddiad yma'n ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriad CBSRhCT sy'n cynnig estyn gorchmynion diogelu mannau cyhoeddus CBSRHCT mewn perthynas â mesurau rheoli cŵn ar gyfer cyfnod o 3 blynedd o 1 Hydref 2023.

Gofynnodd Aelod a fyddai modd ychwanegu caeau chwarae Canol Cwm Rhondda i'r meysydd sy'n cael eu trafod, gan nad oedden nhw wedi'u cynnwys yn y mapiau. Roedd yr Aelod wedi gofyn bod y caeau chwarae yn cael eu hychwanegu gan eu bod nhw'n cael eu hailddatblygu i ddarparu man chwarae.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybod bod yr ymgynghoriad yn cynnwys pob cae chwarae wedi'i farcio felly byddai'r ardal yma'n cael ei chynnwys yn rhan o'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar ôl iddo gael ei gymeradwyo.

Yn dilyn ymholiad, cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod cost yr ymgynghoriad wedi'i gynnwys yn rhan o gyllidebau cyfredol a bod hyn yn cynrychioli'r gofyniad sy'n gofyn i'r Awdurdod gynnal ymgynghoriad amdano a'i adolygu bob tair blynedd.

Nododd Aelodau eu bod nhw'n cefnogi'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad. Gofynnodd yr Aelodau gwestiwn ynghylch sawl person sydd wedi derbyn dirwy sy'n ymwneud â baw cŵn ac a oes modd cyflwyno dirwy uwch pe byddai'r un person yn cyflawni'r drosedd tro ar ôl tro? Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod tua 1000 o bobl wedi derbyn dirwy. Ychwanegodd fod cynnydd wedi bod o ran presenoldeb y Swyddogion er mwyn ceisio atal hyn rhag digwydd ac mae'r swyddogion yn ceisio canolbwyntio ar addysgu pobl am faterion baw cŵn.

**PENDERFYNWYD:** Roedd Aelodau wedi awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i rannu adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu â'r Cabinet cyn iddyn nhw wneud unrhyw benderfyniadau am y Gorchmynion.

**14** **TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:**

**PENDERFYNWYD:**
"Bod y cyfarfod yma'n cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf"

**15** **Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol ac Eiddo Strategol yr adroddiad i Aelodau sy'n rhoi gwybodaeth am gynnydd y Cyngor yn erbyn themâu allweddol Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018/23.

**PENDERFYNWYD**: Bod Aelodau wedi craffu ar Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor, fel sydd wedi'i nodi yn yr atodiad i'r adroddiad.

**16** **Materion Brys**

DIM

**17** **Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

18.25

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.25 pm**

**Y Cynghorydd J Edwards**
**Cadeirydd.**